Adroddiad Blynyddol

2006/07

Planning Aid Wales

Cymorth Cynllunio Cymru

Cymorth Cynllunio Cymru
Adroddiad Blynyddol 2206/07

Cynnwys **Tudalen**

Pennod 1	**Rhagymadrodd gan Gadeirydd Dros Dro CCC**	**2**
Pennod 2	**Ar y gweill**	**3**
Pennod 3	**Cymunedau'n cymryd rhan**	**5**
Pennod 4	**Adeiladu'r sefydliad**	**7**
Pennod 5	**Gweithio trwy bartneriaethau**	**9**
Pennod 6	**Edrych ymlaen**	**9**
Atodiad 1:	**Meini prawf cymhwyster**	**10**
Atodiad 2:	**Gwybodaeth ariannol 2006/07**	**12**
Atodiad 3:	**Gwirfoddolwyr, cyfarwyddwyr a staff CCC**	**14**

Cymorth Cynllunio Cymru – Yn gweithio at system gynllunio deg, dryloyw ac ymatebol

Planning Aid Wales
Cymorth Cynllunio Cymru

Gwefan: www.planningaidwales.org.uk
Cyngor ar ebost: cccpaw@btconnect.com
Llinell gymorth: 02920 485765
Ymholiadau cyffredinol : 02920 464225

Elusen Gofrestredig 1000115
Cwmni'n gyfyngedig gan warant (2526875 – Cymru)

ISBN: 0-9553803-2-4
978-09553803-2-7
Dylunio a chynhyrchu gan Intaglio Design

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Pennod 1

Rhagymadrodd gan Gadeirydd Dros Dro Cymorth Cynllunio Cymru

Neil Harris
Cadeirydd Dros Dro Cymorth Cynllunio Cymru

Mae Cymorth Cynllunio Cymru yn sefydliad annibynnol, di-elw. Ein bwriad yw cynorthwyo unigolion a chymunedau ledled Cymru i gymryd mwy o ran mewn materion cynllunio trwy gynyddu eu dealltwriaeth o'r ffordd mae'r system gynllunio yn gweithio.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, o Ebrill 2006 tan Fawrth 2007, rydym wedi parhau i chwarae rhan ganolog i wella'r system gynllunio yng Nghymru, yn gweithio gydag amrediad mwy o sefydliadau partner i sicrhau system gynllunio deg, dryloyw ac ymatebol y gall pobl Cymru gymryd rhan ynddi'n effeithiol.

Mae gwaith achos yn parhau i fod yn rhan bwysig o waith Cymorth Cynllunio Cymru. Mae meini prawf cymhwyster yn helpu gyda chyfeirio'n adnoddau cyfyngedig i'r rhai sy'n profi gwir rwystrau sylweddol i gymryd rhan yn y system gynllunio, yn ogystal â helpu i fonitro llwyddiant y sefydliad wrth dargedu grwpiau allweddol.

Ategwyd at wasanaethau gwaith achos traddodiadol gyda gweithgareddau eraill ar ymgynghoriad, datblygu polisi a gwaith all-gyrraedd. Mae'r rhain yn adlewyrchu'r pwysigrwydd cynyddol o helpu ffurfio'r system gynllunio, yn ogystal â helpu unigolion a grwpiau cymuned sy'n gweithio o'i fewn.

Apwyntiwyd aelodau staff newydd i sicrhau fod y sefydliad yn gallu parhau i gyflenwi'r gwasanaeth. Mae tîm bach, ymroddedig wedi bod yn hanfodol i gynnal lefelau cyflenwi gwasanaeth.

Mae gwirfoddolwyr yn parhau i fod wrth galon y sefydliad ac mae Cymorth Cynllunio Cymru yn gweithio i ddarparu cefnogaeth mwy effeithiol i wirfoddolwyr. Darperwyd cyfleoedd hyfforddi a datblygu i wirfoddolwyr ar gynllunio cyfredol.

Sefydlwyd proses recriwtio i ehangu aelodaeth y Bwrdd Cyfarwyddwyr, ac mae cynlluniau yn eu lle i sicrhau fod y Bwrdd yn sicrhau'r sgiliau a'r profiad anghenrheidiol i reoli'r sefydliad yn effeithiol.

Mae ymrwymiad ac ymroddiad staff, gwirfoddolwyr a chyfarwyddwyr yn hanfodol i ateb yr heriau mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi'u nodi. Diolch i'r holl bobl sydd yn cefnogi a chynorthwyo Cymorth Cynllunio Cymru i ddosbarthu'r gwasanaethau a chyflawni ei amcanion.



Neil Harris, Cadeirydd Dros Dro Cymorth Cynllunio Cymru

Pennod 2

Ar y gweill

Allan Archer, Gwirfoddolwr Cymorth Cynllunio Cymru, yn gweithio gyda grwp o gynghorwyr cymuned yn Ystradgynlais, 2007-08-17

Gwaith achos Cymorth Cynllunio Cymru

Cawsom dros bedwar cant ac ugain cais am wybodaeth a chyngor dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd tua pumed rhan o'r rhain gan grwpiau cymuned a grwpiau diddordebau, yn cynrychioli aelodau o'r cyhoedd, yr henoed a phobl anabl a chonsortia busnesau bach.

Mae'r diagram isod yn dangos y mathau o ymholiadau a dderbyniwyd.



Deliwyd gyda'r rhan fwyaf o'r achosion hyn ar ein Llinell Gymorth a staffiwyd ar y cyd gan ein Rheolwr Achos, Cynghorydd Cynllunio a Chynorthwy-ydd Gweinyddiaeth. Anfonwyd yr achosion hynny oedd arnynt angen sylw mwy cynhwysfawr neu oedd ganddynt lefel uwch o angen at wirfoddolwr Cymorth Cynllunio Cymru.

Mae amrediad eang o bobl wedi cael help dros y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

- Grwpiau Sipsiwn a Theithwyr
- Grwpiau anabl
- Cynghorau cymuned
- Grwpiau sector wirfoddol
- Meicro -fusnesau
- Pobl hen
- Trydydd parti oedd am wrthwynebu cais cynllunio
- Pobl gyda rhwystrau dysgu ac iaith

Roedd rhai o'r ymholiadau mwyaf cyffredin yn cynnwys:

- Sut allaf i wrthwynebu cais cynllunio?
- Sut allaf i gyflwyno apêl cynllunio llwyddiannus?
- Sut allaf i wneud cwyn os yw penderfyniad cynllunio heb ei wneud yn deg?
- Beth yw'r ffordd orau i wneud sylwadau ar Gynllun Datblygu Lleol?

Dywedodd gwirfoddolwr a gynorthwyodd ar y Llinell Gymorth tra'r oedd y Rheolwr Achos ar wyliau: *"Ces fy synnu pa mor brysur oedd y Llinell Gymorth gyda cheisiadau am gymorth o bob rhan o Gymru ar ystod eang o faterion. Roedd cymaint o bobl yn ddiolchgar am y cyngor a roddwyd."*

Ers cael meini prawf cymhwyster yn 2005, mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi gallu cynnig lefelau gwahanol o wasanaeth i gleientiaid yn ôl eu hamgylchiadau personol (gweler Atodiad 1 am fwy o wybodaeth ar gymhwyster). Golyga hyn ein bod yn gallu targedu ein hadnoddau cyfyngedig at y bobl hynny sydd arnynt angen ein gwasanaeth fwyaf.

Ni all Cymorth Cynllunio Cymru helpu pobl sy'n debygol o elwa'n ariannol o benderfyniad cynllunio. Anfonir unrhyw ymholiadau felly ymlaen at restr o Gynllunwyr Tref Cofrestredig a gynhyrchwyd gan y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol Cymru (RTPI).

Esiamplau o waith achos o'r flwyddyn ddiwethaf

'Cwpl oedrannus yn ennill apêl yn erbyn gwrthodiad cynllunio'

Mae Mr a Mrs A wedi byw ar stâd fodern yn Nhorfaen ers ei adeiladu bymtheng mlynedd yn ôl. Nawr yn eu wythdegau, roedd y cwpl wedi hen flino gweld ieuenctid y stâd yn gyrru eu beiciau ar eu lawnt o flaen y ty ac felly fe benderfynasant adeiladu wal fach 50cm o uchder i'w stopio. Dywedwyd wrth Mr A nad oedd angen caniatâd cynllunio arno i adeiladu wal mor fach, hyd yn oed o flaen y ty.

Sawl mis yn ddiweddarach daeth llythyr o gyngor Torfaen yn gofyn am gais cynllunio ffurfiol ar gyfer y wal. Roedd angen cael caniatâd cynllunio ar gyfer y wal oherwydd roedd yr amod ar ganiatâd gwreiddiol y stâd yn gwahardd amgaeadau ar flaen y tai er mwyn diogelu cynllun agored y stâd. Yn eu siom, cyflwynodd y cwpl eu cais yn fuan, ond gwrthodwyd y cais oherwydd y byddai'n amharu ar natur agored y stâd.

Yn drallodus ac heb arian i gyflogi ymgynghorydd cynllunio, daeth y cwpl at CCC am help. Ymwelodd gwirfoddolwr CCC â Mr a Mrs A a'u helpu i apelio ar sail fod y stâd wedi aeddfedu tu hwnt i'r cynllun gwreiddiol. Cytunodd yr arolygwr cynllunio a ystyriodd eu hapêl a gwrthdrowyd y gwrthodiad. Roedd Mr a Mrs A yn teimlo rhyddhad mawr ac roeddent yn ddiolchgar iawn i Gymorth Cynllunio Cymru am eu holl help.

'Grwp o deithwyr yn cyflwyno cais cynllunio'

Mae Mr B a'i deulu yn aelodau o gymuned deithio sydd, yn ddiweddar, wedi etifeddu darn o dir ger Aberdâr. Roedd gan y tir ganiatâd cynllunio blaenorol ar gyfer adeiladu hafoty (chalet) a lle caled ar gyfer carafán ond roedd amser y caniatâd wedi rhedeg allan. Felly aethant at yr adran gynllunio leol i weld a allent adnewyddu'r caniatâd. Yn fuan wedyn, daeth rhywun oedd yn ymddangos yn cynrychioli'r cyngor i ymweld â hwy ac awgrymodd ef nad oedd ganddynt lawer o obaith i gael caniatâd cynllunio oherwydd cwyn gan gymdogion. Nid oedd Mr B yn ymwybodol o unrhyw gymdogion ar y safle ond am un gwr oedrannus oedd ar delerau da â hwy.
A hwythau'n teimlo eu bod wedi eu siomi gan y system gynllunio a swyddogion y cyngor, cysylltodd y teulu â Chymunedau yn Gyntaf am help ac fe'u cyfeiriwyd at Gymorth Cynllunio Cymru. Cysylltodd gwirfoddolwr CCC â'r teulu a'u helpu i gyflwyno cais cynllunio llawn am nifer o hafotai ar gyfer y gymuned ar y safle. Bu'r gwirfoddolwr hefyd yn eiriol rhwng y gymuned teithio a'r cyngor. Roedd Mr B a'i deulu wrth eu boddau gyda lefel y gwasanaeth a gawsant gan Gymorth Cynllunio Cymru ac maent nawr yn disgwyl yn eiddgar am benderfyniad ar eu cais cynllunio.

'Unigolyn bregus â grym i wrthwynebu'

Cysylltodd Miss C o Abertileri â Chymorth Cynllunio Cymru am help ar ôl sylwi fod adeiladwyr yn addasu adeilad cymuned yn fynglo, ger ei gardd. Yn flaenorol defnyddiwyd yr adeilad fel man cyfarfod i gymdeithas o bensiynwyr oedd wedi gwerthu'r adeilad oherwydd bod angen llawer o waith arno. Yn dilyn trafodaeth fer gdya'r adeiladwyr darganfu Miss C fod caniatâd cynllunio wedi ei roi ar gyfer y newid ac nid oedd hi'n ymwybodol o gwbl o hyn.

Mae Miss C yn dioddef o gur pen enbyd (meigryn) ac yn ei gweld yn anodd i ganolbwyntio am gyfnodau hir. Roedd hi arfer â mwynhau'r heulwen yn ei gardd ac ystyried hyn fel therapi ar gyfer ei chyflwr ond roedd yn ofidus i weld fod to'r adeilad addasedig yn golygu colli heulwen yn ei gardd. Roedd Cymorth Cynllunio Cymru yn gallu cynghori Miss C ar drefnweithiau ar gyfer ymgynghoriad ar geisiadau cynllunio, ac hefyd sut i ffurfio cwyn strwythurol at y cyngor yn rhoi manylion am ei phryderon. Hefyd cynghorwyd hi i gysylltu â chyfreithiwr i drafod materion amherthnasol i gynllunio ymhellach.

"Roedd Cymorth Cynllunio Cymru yn gefnogol, yn wybodus a rhoesant wybodaeth gywir imi wnaeth imi deimlo'n rymus i ddelio gyda'r materion hyn yn gadarn er gwaethaf fy salwch." (Sylwadau gan Miss C, 2007)

Pennod 3

Rhoi gwybodaeth ac ymrwymo cymunedau

Mae Cymorth Cynllunio Cymru'n bwriadu cynyddu ymrwymiad y gymuned yn y system gynllunio yng Nghymru. Rydym yn annog cymunedau i gymryd rhan yn fwy effeithiol yn y broses gynllunio trwy ddarparu rhaglen sy'n codi ymwybyddiaeth, yn hyfforddi ac yn addysgu. Ffocws llawer o'n gwaith yw grwpiau difreintiedig, ar wahân neu 'ni chlywir yn aml' sydd, yn draddodiadol, wedi chwarae rhan fach neu ddim rhan o gwbl yn y system gynllunio.

Mae gweithwyr datblygu a gwirfoddolwyr CCC wedi bod yn gweithio gyda grwpiau cymuned i gynyddu eu gallu i ddefnyddio'r system gynllunio er eu budd eu hunain. Roedd y grwpiau targed yn cynnwys ffermwyr bach, meicro-fusnesau, buddiannau pobl ddu a lleiafrif ethnig, teithwyr, pobl hen, pobl anabl, tenantiaid a chymdeithasau preswylwyr, grwpiau iaith Gymraeg ac ymddiriedolaethau datblygu. Rydym wedi gweithio'n galed i gynyddu gwybodaeth am ein gwasanaethau ymysg y grwpiau hyn trwy dargedu'r cyfryngau, datblygu'n rhwydwaith o gysylltiadau a mynychu cynadleddau, digwyddiadau a chyfarfodydd perthnasol i arddangos deunydd, dosbarthu cyhoeddiadau ac ateb cwestiynau.

Cymunedau yn Gyntaf

Un grwp yr ydym yn ceisio ei gefnogi'n arbennig yw cymunedau sy'n rhan o raglen Cymunedau yn Gyntaf. Ym Medi 2006 buom yn cydweithio gyda Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf i drefnu seminar un dydd ar gyfer cydlynwyr Cymunedau yn Gyntaf ac aelodau'r Bwrdd yng ngogledd Cymru. Dysgodd y cyfranogwyr sut oeddent yn gallu cymryd rhan ym mharatoad Cynlluniau Datblygu Lleol a sut oeddent yn gallu defnyddio'r broses hon i gyflawni rhai amcanion oedd yn eu cynlluniau gweithredol.

Hefyd rhoesom gefnogaeth ymarferol i ymarfer Cynllunio Go Iawn (Planning for Real ™) yn etholaeth Cymunedau yn Gyntaf Talysarn a Nantlle, fel rhan o gynllun peilot i addasu methodoleg Cynllunio Go Iawn i anghenion cymunedau gwledig.

Gweithdy Cymorth Cynllunio Caer, Ebrill 2006

Cynghorau tref a chymuned

Eleni gwelwyd cychwyn prosiect partneriaeth gyffrous rhwng Cymorth Cynllunio Cymru ac Un Llais Cymru (ULlC), sefydliad ymbarél ar gyfer cynghorau tref a chymuned yng Nghymru. Yn dilyn cyhoeddi Strategaeth Hyfforddi Genedlaethol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned, sy'n nodi cynllunio fel blaenoriaeth ar gyfer hyfforddiant, cydweithiodd CCC ac ULlC i ddatblygu rhaglen hyfforddi benodol. Gydag arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, profwyd nifer o wahanol fathau o ddulliau hyfforddi a chasglu gwybodaeth werthfawr ar anghenion manwl hyfforddi a hoff ddulliau dysgu gwahanol fathau o gynghorau cymuned. Rydym yn bwriadu adeiladu ar y gwaith peilot hyn i ddatblygu rhaglen hyfforddi mwy cynhwysfawr gyda ULlC yn 2008.

Grwpiau anabl

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi cryfhau'n cysylltiadau gyda grwpiau sy'n gweithio dros hawliau pobl anabl. Rydym wedi cefnogi gwaith grwpiau mynediad lleol ac yn gweithio'n agos gydag Anabledd Cymru i ddatblygu adnoddau hyfforddi a gwybodaeth ar gyfer grwpiau anabl.

Trefnodd a chyflenwodd Kay Powell, gwirfoddolwraig CCC, ddiwrnod hyfforddi llwyddiannus iawn gyda Grwp Mynediad Brycheiniog. Diolchodd cadeirydd y grwp i Kay gan ddweud: *"Mae nifer o bobl a fynychodd yr achlysur wedi cysylltu â mi i ddweud mor ddefnyddiol ydoedd. Diolch yn fawr iawn ichi oddi wrthym ni."*

Nododd y grwpiau mynediad yr angen i gynyddu gallu'r cynllunwyr i ddelio gyda hawliau anabledd a materion mynediad. Cymerodd Cymorth Cynllunio Cymru ac Anabledd Cymru syniad gan aelodau grwp mynediad a threfnu digwyddiad hyfforddi eu hunain ar gyfer grwpiau mynediad a chynllunwyr yn Ebrill 2007. Rhan craidd y digwyddiad oedd gweithdai lle bu cyfranogwyr yn rhannu arbenigedd a gweithio gyda'i gilydd i ddarganfod ffyrdd i sicrhau mynediad i bawb mewn cynllunio. Roedd hyn yn cynnwys mynediad i'r broses o wneud penderfyniadau ac hefyd mynediad i gynhyrchion corfforol cynllunio. Rhoddodd y digwyddiad wybodaeth amserol ar Ddatganiadau Mynediad sydd nawr yn un o ofynion cyfreithiol ar gyfer yr rhan fwyaf o geisiadau cynllunio.

Dangosodd atborth gan aelodau'r grwp mynediad eu bod wedi elwa llawer o'r diwrnod. Dywedodd un cyfranogwr: *"Roedd yn ddiwrnod pleserus, addysgol a llawn gwybodaeth."*

Sipsiwn a Theithwyr

Yng ngwanwyn 2007, cynorthwyodd CCC Lywodraeth Cynulliad Cymru gydag ymgynghoriad ar Gylchlythyr drafft 'Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanu i Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru'. Rôl CCC oedd gwneud y ddogfen a'r broses ymgynghori'n hygyrch i anghenion cyfathrebu Sipsiwn a Theithwyr, grwp ymylol traddodiadol. Trwy weithio mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Cymorth Teithwyr, Elusen Ysgol Teithwyr ac Achub y Plant codwyd ymwybyddiaeth o'r cylchlythyr drafft ymysg y Sipsiwn a'r Teithwyr a chasglu eu sylwadau arno. Yn seiliedig ar yr ymatebion a gafwyd, anfonwyd adroddiad cynhwysfawr i Lywodraeth Cynulliad Cymru gydag argymhelliion ar sut y gellid addasu'r cylchlythyr i ystyried yr anghenion a'r sylwadau a ddatganwyd gan gymuned y Sipsiwn a'r Teithwyr.

Cynlluniau Datblygu Lleol

Mae CCC yn annog grwpiau cymuned i gymryd rhan mewn creu Cynlluniau Datblygu Lleol ar gyfer eu hardaloedd ac yn helpu i gynyddu eu gallu i wneud hyn yn effeithiol. Yn Ynys Môn rydym hefyd wedi cynorthwyo'r awdurdod cynllunio lleol i berswadio grwpiau a sefydliadau hapddalwyr i gymryd rhan, gyda staff a gwirfoddolwyr CCC yn helpu hyrwyddo cyfarfodydd cyhoeddus ac egluro'r broses i'r gymuned.



Stondin wybodaeth Cymorth Cynllunio Cymru, Eisteddfod Genedlaethol 2006

Llawlyfr Gyhoeddus Iaith Blaen

Digwyddiad o bwys eleni oedd gweld CCC yn cyhoeddi Canllaw cyhoeddus i'r system gynllunio defnydd tir yng Nghymru a lansiwyd gan Weinidog Cynulliad Cymru,

Carwyn Jones ym Medi 2006. Mae'r llawlyfr yn 'gosod mewn iaith rhyfeddol o glir y pwysigrwydd o gynllunio ac yn egluro polisïau cynllunio cenedlaethol yng Nghymru' (detholiad o adolygiad yng nghylchgrawn Cymdeithas yr Wyddfa). Mae'n rhoi cyngor ar sut gall grwpiau cymuned ac unigolion gyflwyno'u safbwyntiau orau i ddylanwadu ar benderfyniadau cynllunio. Rhoddir manylion cyswllt ar gyfer sefydliadau sy'n gallu rhoi mwy o wybodaeth am wahanol agweddau o'r system gynllunio. Mae geirfa'n egluro termau cynllunio arbenigol mewn iaith blaen.

Dosbarthwyd copi cyfeirio i lyfrgelloedd cyhoeddus a chanolfannau cyngor ledled Cymru ac mae copïau i'w prynu ar gael o CCC. Mae'r llawlyfr yn ychwanegu at ystod eang o gyhoeddiadau CCC a anelir at y cyhoedd ac hefyd at grwpiau targed penodol megis cynghorau cymuned. Maent yn ceisio dadrinio materion cynllunio a chynyddu gallu pobl sydd ddim yn gynllunwyr i gymryd rhan yn ystyrlon yn y system gynllunio.

Cynllun Iaith Gymraeg

Yn ystod y flwyddyn mae CCC wedi datblygu Cynllun Iaith Gymraeg sy'n datgan sut mae CCC yn bwriadu symud ymlaen dros y dair blynedd nesaf tuag at ddarparu gwasanaeth dwyieithog llawn. Rydym yn bwriadu darparu gwasanaeth o ansawdd uchel yn Gymraeg a Saesneg.

Pennod 4

Adeiladu'r sefydliad

Tîm staff CCC

Ym Mai 2006, penderfynodd Bwrdd Cymorth Cynllunio Cymru i ddiwygio strwythur y staff, i greu swydd Prif Weithredwr, i ddisodli swydd flaenorol y Cydlynydd. Mae'r Prif Weithredwr yn atebol i Fwrdd y Cyfarwyddwyr am gynnal a rheoli'r sefydliad a'r staff. Cefnogir y Prif Weithredwr a'r staff eraill gan Weinyddydd.

Mae Cynllunydd / Rheolwr Achos yn gyfrifol am reoli'r Llinell Gymorth, y gwaith achos, sy'n cynnwys cyfeirio gwaith i wirfoddolwyr, yn ogystal â datblygu'r rhwydwaith o wirfoddolwyr ledled Cymru.
Mae Swyddog Datblygu'n helpu ehangu cyrhaeddiad rhaglen waith all-gyrraedd CCC gyda chymunedau lleol a grwpiau ymylol. I gynyddu proffil ac effaith gweithgareddau CCC tu hwnt i dde ddwyrain Cymru, lle tueddid i ganolbwyntio gweithgareddau yn y gorffennol, mae'r Swyddog Datblygu wedi ei lleoli yng ngogledd Cymru ac yn siarad Cymraeg yn rhugl.

Volunteer Bulletin

Greetings

Latest News

Fformad newydd Bwletin Gwirfoddolwyr 2007

Gwirfoddolwyr

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi croesawu pedwar cynllunydd gwirfoddol newydd (pob un yn gynllunwyr cymwys) gyda dau ohonynt yn gyn aelodau staff. Croeso cynnes i Lucie Taylor, Natasha Lade, Max Smith a Catherine Phillips.

Llawer o ddiolch a phob lwc i Chris O'Brien, gwirfoddolwr sy'n ein gadael, ac rydym yn falch i groesawu y gwirfoddolwyr CCC Elwyn Thomas a James Davies yn staff amser llawn. Ceir rhestr lawn o'n gwirfoddolwyr, cyfarwyddwyr a staff yn Atodiad 3.

Mae Cymorth Cynllunio Cymru wedi ail-lansio'r bwletin gwirfoddolwyr deu-fisol. Yr amcan yw rhoi'r newyddion diweddaraf i wirfoddolwyr am waith prosiect, gwaith achos a gweithgareddau hyfforddi yn ogystal â hysbysu digwyddiadau. Gwahoddir gwirfoddolwyr i ysgrifennu erthyglau ac i gyfrannu i'r cyhoeddiad.

Yn Ionawr 2007, ynghyd ag Eversheds, cwmni cyfreithiol cynllunio ledled y DU, darparodd Cymorth Cynllunio Cymru ddigwyddiad hyfforddi ar gyfraith cynllunio ar gyfer gwirfoddolwyr a chynllunwyr CCC yng Nghymru. Amlygodd y digwyddiad bynciau megis newidiadau i'r system ddatblygu yng Nghymru, cynllunio ar gyfer newid hinsawdd ac adolygiadau ar fesurau cynllunio newydd. Cymeradwywyd yr hyfforddiant a bwriedir cynnal digwyddiad tebyg nes ymlaen yn y flwyddyn.

Yn Ebrill 2007, gwahoddwyd gwirfoddolwyr yng ngogledd Cymru i seminar arloesol un diwrnod a drefnwyd ar y cyd gan Gymorth Cynllunio Cymru ac Anabledd Cymru. Teitl y seminar oedd Anabledd, Cyfartaledd a Mynediad mewn Cynllunio a daeth y digwyddiad hyfforddi â gwirfoddolwyr a chydweithwyr Cymorth Cynllunio Cymru ac aelodau grwpiau mynediad lleol at ei gilydd. Roedd yn gyfle amserol i gynllunwyr i ddysgu mwy am hawliau anabledd a Datganiadau Mynediad sydd nawr yn gorfod mynd gyda'r rhan fwyaf o geisiadau cynllunio. Bwriedir cynnal digwyddiad cyffelyb yn ne Cymru nes ymlaen yn 2007.

Bwrdd Cyfarwyddwyr

Mae cyfarwyddwyr CCC yn dod o amrediad o gefndiroedd ac yn dangos ymrwymiad go iawn i achos cymorth cynllunio trwy gyfrannu llawer o oriau o'u hamser yn rhad i helpu adeiladu'r sefydliad. Mae Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn parhau i gyfarfod chwe gwaith y flwyddyn yn cynnwys Diwrnod Bant a gynhaliwyd yn Ionawr 2007 pan fu'r Bwrdd yn edrych eto ar flaenoriaethau strategol ar gyfer y sefydliad a sefydlu adrannau allweddol ar gyfer eu datblygu yn y dyfodol. Mae'r cyfarwyddwyr hefyd yn cymryd rhan mewn cyfres o weithgorau, yn helpu i ddatblygu adrannau craidd gweithgaredd CCC.

Mae aelodaeth y Bwrdd wedi datblygu yn ystod y flwyddyn gyda chyfarwyddwyr newydd yn llenwi lleoedd gwag (gweler Atodiad 3). Tua diwedd y flwyddyn dechreuodd y Bwrdd gynnal rhaglen ehangach o recriwtio ac asesu eu haelodaeth.

Pennod 5

Gweithio trwy bartneriaethau

Rydym yn cydnabod y gallwn gyflawni'n hamcanion strategol yn fwy effeithiol trwy weithio gyda sefydliadau ac asiantaethau eraill. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweithio gyda:

- **Un Llais Cymru** i baratoi rhaglen o hyfforddiant cynllunio ar gyfer cynghorau tref a chymuned, yr ystyrir y byddant yn chwarae rhan allweddol yn y system gynllunio datblygu ddiwygiedig;

- **gwasanaethau cymorth cynllunio yn Lloegr a'r Alban** i wella cydlynu ein gweithgareddau a sefydlu sail cyffredin i ddosbarthu gwasanaethau Cymorth Cynllunio ar draws y DU;

- **Anabledd Cymru** i gynyddu gallu eu haelodau i ddylanwadu ar y broses gynllunio;

- **Llywodraeth Cynulliad Cymru** i'w helpu gyda ffurfio polisi cynllunio wedi'i hanelu at ddarparu digon o safleoedd i ateb anghenion cymunedau Sipsiwn a Theithwyr;

- **Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol Cymru** i godi proffil gwasanaeth cymorth cynllunio yng Nghymru ac i gynyddu gwirfoddoli gan aelodau ac;

- Adran Gynllunio Dinas a Rhanbarth **Prifysgol Caerdydd**. Er enghraifft, eleni bu grwp o fyfyrwyr, wedi'u harwain gan wirfoddolwr CCC a darlithydd y brifysgol, Huw Thomas, yn cynnal astudiaeth ymarferoldeb o ddefnydd cymuned posibl o dir Ysbyty Mwynwyr Caerffili sydd i gau yn 2009. Mae'r adeilad yn arwyddocaol yn hanesyddol ac yn boblogaidd gyda phobl leol ac mae pryder go iawn y dymchwelir yr adeilad a defnyddio'r safle ar gyfer datblygu tai. Mae'r myfyrwyr wedi paratoi adroddiad ymarferoldeb trawiadol a ddefnyddir gan Jeff Cuthbert yr AC lleol, Cymdeithas Abbeyfield a'r Ganolfan Gynghori fel sail ar gyfer gweithrediadau pellach.

Pennod 6

Edrych ymlaen

Rydym wedi adolygu Cynllun Busnes CCC, ac wedi datblygu fframwaith strategol ar gyfer datblygu ein gweithgareddau a'n dylanwad hyd at 2010. Mae Cynllun Gweithredol ar gyfer 2007-08 yn nodi'r amcanion allweddol canlynol:

• Atgyfnerthu a gwella cyflenwi'n gwaith achos craidd, ein gwybodaeth a'n gwasanaethau cynghori.

• Datblygu ystod o gefnogaeth rhwydwaith a gweithgareddau hyfforddi wedi'u dylunio i adeiladu rhwydwaith ffyniannus a sefydlog o wirfoddolwyr. Cyn mynd ati i recriwtio gwirfoddolwyr newydd byddwn yn cynnal archwiliad o sgiliau'r gwirfoddolwyr a cheisio llenwi unrhyw fylchau mewn sgiliau a nodir, trwy recriwtio gyda thargedau.

• Parhau i ddatblygu ein gweithgareddau all-gyrraedd, gyda'r bwriad o gynnwys mwy o'r cymunedau a grwpiau ymylol sydd, yn draddodiadol, heb ymwneud â materion cynllunio.

• Manteisio ar y rhaglen i ddosbarthu hyfforddiant i gynghorau tref a chymuned fel modd o gynyddu'n gallu i ddosbarthu hyfforddiant cynllunio perthnasol a chanolog i grwpiau targed eraill.

• Canolbwyntio ar ddatblygu partneriaethau mwy effeithiol gyda Grwp Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol Cymru, awdurdodau cynllunio lleol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a gwasanaethau Cymorth Cynllunio eraill y DU.

Atodiad 1:

Meini prawf cymhwyster



[1] *Mae ystadegau amaethyddol y DU/UE yn disgrifio ffermydd bach fel rhai'n cyflogi llai na 3 o bobl.*

[2] *Diffinir meicro-fusnes fel busnes bach iawn yn cyflogi llai na 10 o weithwyr llawn amser.*

Eglurhad o Gymhwyster

Mae CCC yn darparu lefelau gwahanol o wasanaeth i gleientiaid yn dibynnu ar eu hamgylchiadau. Mae trefnwaith cwynion mewn lle ble gellir cyfeirio cleient at Brif Weithredwr CCC a / neu Bwrdd CCC os ydynt yn anfodlon ynghylch unrhyw benderfyniad cymhwyster a wneir gan y Rheolwr Achos.

Gwybodaeth
Helpu cleientiaid i fynd at ffynonellau gwybodaeth (llenyddiaeth / rhyngrwyd) neu eu cyfeirio at restr o ymgynghorwyr cynllunio yng Nghymru i gael canllaw pellach.
Cyngor
Ffurfio strategaethau ar gyfer cleientiaid ac argymell sut i weithredu er mwyn cael y canlyniad gorau. Darparu canllaw penodol ar sut i oresgyn rhwystrau i gymryd rhan.
Adfocatiaeth
Cynghori cleientiaid ar eu hachos, darparu help a chanllaw ar sut i gyflawni tasg benodol neu hyd yn oed bod yn gynrychiolydd mewn achosion swyddogol er mwyn goresgyn rhwystrau i gymryd rhan.

Lefelau Cymhwyster

Lefel 1 – Dim ond gwybodaeth sylfaenol / cyfarwyddo a ellir ei roi i dirfeddianwyr domestig neu berchnogion tai ar eu ceisiadau eu hunain.

Lefel 2 – Gellir darparu gwybodaeth a chyngor i drydydd parti sydd am wrthwynebu neu gefnogi cais cynllunio, ffermwyr busnesau bach, a meicro-fusnesau.

Lefel 3 – Gellir darparu gwybodaeth, cyngor a pheth adfocatiaeth i grwpiau cymuned a gwirfoddol neu gleientiaid lefel 1 a 2 gyda rhwystrau neilltuol i gymryd rhan.

Lefel 4 – Gellir darparu gwybodaeth, cyngor ac adfocatiaeth llawn i'r rhai gyda lefelau uchel o angen, megis yr anabl neu unigolion neu grwpiau bregus neu unrhywun gyda rhwystrau dysgu ac iaith.

Ni all CCC helpu

- Ymgynghorwyr cynllunio
- Asiantau ar geisiadau cynllunio, megis tirfesurwyr neu benseiri.
- Pobl gydag arian neu a ymddengys fod ganddynt arian i gyflogi ymgynghorydd cynllunio.
- Pobl sy'n debygol o elwa'n ariannol o gais neu benderfyniad apêl, os nad ydynt yn profi rhwystrau difrifol i gymryd rhan. Os ydynt yn y garfan hon, yna rhoddir uchafswm o bedair awr o gymorth i'r grwp neu'r unigolyn yna.
- Pobl sydd am gael barn diduedd ar haeddiannau cais cynllunio neu benderfyniad apêl a wnaethpwyd eisoes.
- Pobl gydag ymholiadau sy'n ymwneud dim â chynllunio.

Lefelau cymhwyster a dderbyniwyd yn y flwyddyn ddiwethaf
Cyfanswm o achosion a dderbyniwyd: 422



Atodiad 2:

Gwybodaeth ariannol 2006/07

Cafodd y cwmni golled o £5,067 ar y cyfrif incwm a gwariant ar drosiad o oddeutu £120,000. £34,215 oedd swm y cronfeydd ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r cyfrifon yn cyfeirio at eitemau cyfngedig ac anghyfyngedig. Mae hyn yn gwahaniaethu rhwng cronfeydd a ellir eu gwario ar eitemau penodol, fel arfer yn gysylltiedig ag ariannu prosiectau a'r rhai lle nad oes cyfyngu ar eu defnydd.

Mae cyfrifon llawn ar gael am y flwyddyn 2006/07 yn swyddfa Caerdydd.

Mantolen Cymorth Cynllunio Cymru ar Fawrth 31ain 2007

	2007	**2006**
	£	£
Asedau sefydlog		
Asedau diriaethol	2,696	4,240
Asedau cyfredol		
Stociau	300	300
Dyledwyr	2,661	3,123
Arian parod yn y banc	29,251	41,205
	32,212	44,628
Credydwyr: Symiau yn ddyledus		
o fewn un flwyddyn	(693)	(9,586)
Asedau cyfredol net	31,519	35,042
Asedau cyfan namyn dyledion cyfredol	**34,215**	**39,282**
Cronfeydd		
Anghyfyngedig	7,990	3,410
Cyfyngedig	26,225	35,872
Cronfeydd aelodau	34,215	39,282

Cyfrif Manwl Incwm a Gwariant Cymorth Cynllunio Cymru am y flwyddyn yn gorffen Mawrth 31ain 2007

Adnoddau'n dod i mewn	**2007**	**2006**
	£	£
(Incwm anghyfyngedig)		
Grant RTPI	5,850	6,000
Rhoddion a thaliadau am gyngor	105	384
Gwerthiant cyhoeddiadau	2,797	3,430
Codi arian	136	52
Llog banc gros	253	335
Hyfforddi a chyflwyniadau eraill	610	-
	9,751	**10,201**

(Incwm cyfyngedig)		
Hyfforddiant Cyngor Cymuned	8,225	-
Grant Cynulliad Cymru	100,000	122,709
Grant Un Llais Cymru	-	12,550
Grantiau eraill	501	988
	108,726	136,247
Cyfanswm Incwm	**118,477**	**146,448**
Gorbenion		
(Gwariant anghyfyngedig)		
Cyflogau	-	4,500
Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol	-	705
Ffioedd Cyfrifyddiaeth	693	650
Dibrisiant cyfarpar cyfrifiadurol	1,544	1,544
Costau banc	-	17
Tanysgrifiadau a llyfrau	-	1,676
Eitemau amrywiol	-	25
Adroddiad Blynyddol	2,934	-
	5,171	**9,117**
(Gwariant cyfyngedig)		
Ymgynghoriaeth	-	15,365
Locwm	2,550	-
Prosiect Sipsiwn a Theithwyr	477	-
Cyflogau	70,448	83,366
Cyfraniadau Pensiwn	2,140	5,845
Yswiriant	1,354	1,025
Ffôn a ffacs	3,147	1,725
Llety	6,347	6,181
Treuliau teithio	209	2,737
Deunyddiau swyddfa ac ysgrifennu	2,596	2,895
Postio a phrintio	385	12,465
Ffioedd Proffesiynol	472	663
Tanysgrifiadau a llyfrau	894	-
Marchnata	2,528	1,182
Costau recriwtio	1,886	770
Hyfforddi Staff	744	1,811
Treuliau Staff	5,401	3,156
Treuliau Cyfarfodydd	1,222	2,649
Swyddfa gogledd Cymru	2,207	-
Gwefan / TG	628	-
Llawlyfrau	12,738	-
	118,373	**141,835**
CYFANSWM Y GWARIANT	**123,544**	**150,952**
COLLED AR WEITHGAREDDAU CYFFREDIN	**(5,067)**	**(4,504)**

Atodiad 3:

Gwirfoddolwyr, cyfarwyddwyr a staff CCC

Gwirfoddolwyr cynllunio

Alan Groves
Allan Archer
Barry John Lomax
Catherine Phillips
Clare Taylor
Clive James
Clive Williams
Dave Lucas
Elwyn Thomas
Heather Williams
Huw Thomas
Ian Horsburgh
James Davies
Janice Tse
Jon Talbot
Jonathon Parsons
Karen Maddock Jones
Katherine Hughes
Kathleen Norton
Kay Powell
Lucie Taylor
Mark Dakeyne
Mark Jones
Max Smith
Michael Fowler
Michael Jones
Michael Lloyd
Mike Thorne
Natasha Lade
Neil Harris
Owain Wyn
Patrick Moss
Paul Carter
Pete Drew
Peter G Aubrey
Peter Kingsbury
Peter Taylor
Phil Bristow
Phil Davey
Rhian Brimble
Robert Green
Sarah Hensby
Siobhan Wiltshire
Ste James
Tony Humphreys
Tracey Brooks
Victoria Phillips

Gwirfoddolwyr heb gymhwyster a myfyrwyr

Adam Wilkinson
Anna Crooks
Catrin Haf Jones
Claire Fowler
Eva Herr
Ishita Sheth
Katherine Knowles
Miao Xu
Sandra Bushell
Peter Laxton

Cyfarwyddwyr

Katherine Hughes	(Cadeirydd)
Neil Harris	(Is-Gadeirydd / Cadeirydd Dros Dro)
Peter Kingsbury	(Trysorydd)
Kathleen Norton	
Ian Horsburgh	
Allan Archer	
Tony Humphreys	
Sioned Hughes	
Owain Wyn	
John Lambert	
Karen Maddock-Jones	(ymddiswyddodd Mawrth 2007)
Steve Cranston	
Paul Williams	(ymddiswyddodd Mawrth 2007)
Mark Dakeyne	(apwyntiwyd Ionawr 2007)

Staff

Elwyn Thomas	Prif Weithredwr
James Davies	Cynllunydd / Rheolwr Achos
Marika Fusser	Swyddog Datblygu
Sandra Watson	Gweinyddydd